

Sled Siôn Corn

Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur neu gerdyn
- Sisyrnau
- Glud
- Tâp gludiog
- Pinnau felt, pensiliau neu greonau
- Unrhyw beth yr hoffech ei ddefnyddio i addurno eich sled (e.e sêr gludiog, glud gliter, pinnau felt metalaidd neu gel ac ati)



Argraffwch y ffeil ar gyfer y sled a'r ffeil ar gyfer y cymeriadau Nadolig.

Os ydych wedi argraffu'r ffeiliau ar bapur lliipa, gludwch nhw ar ddarnau o gerdyn tenau. Mae angen iddo fod yn ddigon tenau i'w blygu. Efallai gallwch ddefnyddio paced grawnfwyd gwag?

Pan fydd y glud yn sych, torrwch o amgylch y siapiau yn ofalus. Sicrhewch eich bod yn torri'r cymeriadau lliwgar, y sled, y sach a'r harnais fesul darnau sengl ynghyd â'r tabiau sydd wrth eu hymyl. Gofynnwch i oedolyn eich helpu, mae rhai darnau yn anodd!

Defnyddiwch eich sticeri, pensiliau, neu beth bynnag arall sydd gennych, er mwyn addurno a gwneud eich patrymau yn hyd yn oed fwy arbennig.


Pan fyddwch wedi gorffen, plygwch eich sled yn ofalus ar hyn y llinellau toredig a'i ludo at ei gilydd gan ddefnyddio'r tabiau. Byddwch angen ychydig o help i wneud hyn.

Nesaf plygwch y tabiau o dan Siôn Corn, Rwdolff a'r sach o anrhegion. Dylai pob un ohonynt fod yn sefyll bellach!


Mae'r harnais yn fwy heriol, mae ganddo dri thab, un ar gyfer llaw Siôn Corn a dau ar gyfer cefn Rwdolff. Unwaith y bydd y tabiau wedi'u plygu'n ôl dylai'r harnais eistedd yn braf o law Siôn Corn hyd at Rwdolff.

Nadolig Llawen!

wno.org.uk/playopera



Torrwch allan fel un darn, plygwch y tabiau yn ôl ar hyd y llinellau doredig a gludwch.



Torrwch allan fel darnau sengl a phlygwch y tabiau yn ôl ar hyd y llinellau doredig.